Llysgennad Oxbridge yng Nghymru

# Cymharu cyrhaeddiad a nifer y myfyrwyr o Gymru sy’n cael eu derbyn yn Rhydychen a Chaergrawnt gyda gogledd-ddwyrain Lloegr

S Gallagher, J Padley

Mehefin 2014

Mae’r adroddiad hwn yn cymharu cyfraddau derbyn myfyrwyr o Gymru i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt, o gymharu â’r myfyrwyr hynny sy’n byw yng ngogledd-ddwyrain Lloegr. Er mwyn esbonio’r cyfraddau mynediad anghyfartal, rydym hefyd yn ystyried cyrhaeddiad addysgol yn yr arholiadau TGAU a Safon Uwch yng Nghymru gyda ffigurau cymharol o ogledd-ddwyrain Lloegr.

Digital ISBN 978 1 4734 1668 0
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22064

## Cynnwys


**Cefndir** 2

**Ystadegau derbyn** 3

**Cyrhaeddiad academaidd** 5

**Atodiad A: Data derbyniadau blynyddol ar gyfer Rhydychen a Chaergrawnt yn ôl rhanbarth 2008–12** 7

**Atodiad B: Derbyniadau i Rydychen yn ôl math o ysgol 2008–12** 9

**Atodiad C: Cyrhaeddiad yn yr arholiadau Safon Uwch a TGAU 2008–12** 10

## Cefndir

Yn "Cyrhaeddiad myfyrwyr Cymru a'r ymgeiswyr sy'n cael eu derbyn yn Rhydychen a Chaergrawnt: y dystiolaeth", fe wnaethom gymharu cyrhaeddiad myfyrwyr o Gymru yn yr arholiadau TGAU a Safon Uwch gyda chanlyniadau myfyrwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Hefyd, fe wnaethom gymharu'r cyfraddau ymgeisio a derbyn i Rydychen a Chaergrawnt o'r rhanbarthau hyn. Roedd y canlyniadau yn dangos amrywiad clir yn y cyfraddau cyfrannol ar gyfer cyrhaeddiad a derbyn.

Fodd bynnag, gwyddom na ellir cymharu'r rhanbarthau hyn yn uniongyrchol. Mae gan Loegr boblogaeth o 53.5 miliwn, o gymharu ag 1.8 miliwn yng Ngogledd Cymru a 3.1 miliwn yng Nghymru[1]. Yn ogystal â hyn, mae gan Loegr sector mawr o ysgolion annibynnol, gyda phocedi o ysgolion sy'n dethol disgyblion ar sail meini prawf cymdeithasol neu addysgol; mae Gogledd Iwerddon wedi cynnal system ysgolion dethol sy'n golygu bod nifer fawr o ysgolion gramadeg. Nid oes unrhyw ysgolion gwladol dethol yng Nghymru a dim ond ychydig iawn o ysgolion gramadeg sydd ganddi.

Er mwyn goresgyn hyn, fe wnaethom geisio cymharu detholiad o awdurdodau lleol (ALl) â demograffeg debyg yng Nghymru a Lloegr. Ni fu hyn yn llwyddiant, oherwydd roedd yr ardal o ddiddordeb yn destun ffactorau nad oedd yn bosibl eu rheoli, er enghraifft, chweched dosbarth llwyddiannus y tu allan i ffin yr ALl, sy'n denu myfyrwyr i deithio y tu allan i'r ALl, ac sydd felly yn eu heithrio o'r cofnodion cyrhaeddiad ar gyfer yr awdurdod hwnnw. Felly, ar gyngor Prif Economegydd Llywodraeth Cymru, rydym wedi dewis cynnal astudiaeth gymharu bellach rhwng Cymru a Gogledd Ddwyrain Lloegr.

[1] www.ons.gov.uk/ons/rel/pop-estimate/population-estimates-for-uk--england-and-wales--scotland-and-northern-ireland/mid-2011-and-mid-2012/index.html

## Ystadegau derbyn

Yn gyntaf, fe wnaethom gymharu nifer y ceisiadau a'r derbyniadau i Rydychen a Chaergrawnt rhwng 2008-2012. Isod mae crynodeb o'n canfyddiadau, gyda dadansoddiad blynyddol yn ôl rhanbarth ar gyfer pob prifysgol yn atodiad A.

### Tabl 1.1: ffigurau derbyn cyfartalog ar gyfer Rhydychen a Chaergrawnt yn ôl rhanbarth o 2008-2012[2]

| | # Ceis | # RhF | % RhF | # Cyn | % Cyfradd Cyn | # Derb | % Cyfradd Derb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caerg Cymru | 267 | | | 68 | 25.50% | 60 | 22.60% |
| Rhyd Cymru | 445 | 279 | 62.80% | 84 | 18.80% | 77 | 17.30% |
| Caerg GLl | 262 | | | | | 68.2 | 26.03% |
| Rhyd GLl | 244.2 | 165.8 | 67.90% | 61.6 | 25.23% | 54.8 | 22.44% |
| Caerg DU | 10198 | | | 3170 | 31.10% | 2755 | 27.00% |
| Rhyd DU | 11452 | 7843 | 68.50% | 2906 | 25.40% | 2702 | 23.60% |

Gallwn weld o'r tabl cryno hwn bod gan Ogledd Ddwyrain Lloegr gyfradd llwyddiant sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer derbyniadau i Rydychen a Chaergrawnt, o gymharu â'r DU gyfan, ond cyfradd llwyddiant llawer uwch na Chymru.

Beth yw'r rheswm am hyn? Mae nifer o ffactorau lliniarol a allai fod yn effeithio ar berfformiad ymgeiswyr yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr:

1. Mae gan Ogledd Ddwyrain Lloegr nifer o ysgolion cyhoeddus a allai gael effaith anghymesur ar gynnydd i Rydychen; neu efallai bod ysgol unigol neu grŵp bychan o ysgolion, waeth pa fath o ysgolion yw'r rhain, yn cael llwyddiant arbennig i gefnogi ymgeiswyr, a bod hyn yn ystumio'r canlyniadau ar gyfer y rhanbarth cyfan.

Mae gennym fynediad at ddata lefel ysgolion ar gyfer Rhydychen yn unig (gweler Atodiad B), ond ar ôl edrych yn gyflym ar y data hwn, gwelwn fod gan ysgolion cyfun yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr gyfradd llwyddo o 41.5% ar ôl llunio rhestr fer, o gymharu â chyfradd llwyddo o 36% ar gyfer ymgeiswyr o ysgolion annibynnol yn y rhanbarth. Yng Nghymru, cafwyd cyfradd llwyddo o 29.6% ar gyfer myfyrwyr o ysgolion cyfun, o gymharu â chyfradd llwyddo o 34.9% ar gyfer ymgeiswyr o ysgolion annibynnol. Roedd ymgeiswyr llwyddiannus yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr yn hanu o 35 o ysgolion neu golegau gwahanol, yr oedd 9 ohonynt y tu allan i ranbarth Gogledd Ddwyrain Lloegr, ac roedd ymgeiswyr llwyddiannus o Gymru yn hanu o 48 o ysgolion gwahanol, yr oedd 15 ohonynt y tu allan i Gymru.

[2] Nid yw Caergrawnt yn casglu gwybodaeth yn rheolaidd am lunio rhestr fer, ac felly dim ond gwybodaeth ar gyfer Rhydychen a roddir yma.

Roedd un ysgol yn Newcastle wedi darparu 27 o geisiadau llwyddiannus, y nifer fwyaf  o un sefydliad yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr, tra bod ysgol yng Nghaerdydd wedi darparu 16 o ymgeiswyr llwyddiannus, sef y nifer uchaf o sefydliad unigol yng Nghymru.

Yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr, roedd 4 o’r 35 o ysgolion gwahanol wedi cynhyrchu 10 neu fwy o ymgeiswyr llwyddiannus (cyfanswm o 73), ac yng Nghymru roedd 6 o’r 48 o ysgolion a cholegau wedi cynhyrchu nifer debyg o ymgeiswyr fesul ysgol (cyfanswm o 78).

Mae hyn yn awgrymu, er bod nifer ychydig yn is o ysgolion a cholegau yn rhanbarth Gogledd Ddwyrain Lloegr, nid yw un ysgol neu grŵp bychan o ysgolion yn cael unrhyw effaith anghymesur.

2. Fel arall, gallai cyrhaeddiad academaidd yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr fod yn uwch yn gyffredinol.  Gellir disgwyl, po fwyaf o fyfyrwyr AAA+ sydd mewn rhanbarth, y mwyaf tebygol y bydd nifer uwch o dderbyniadau llwyddiannus i Oxbridge.

Byddwn yn trafod hyn yn yr adran nesaf.

3. Yn olaf, efallai bod ffactorau eraill yn bodoli ar draws y rhanbarth: rhaglen gymorth sefydledig ar gyfer myfyrwyr dawnus a thalentog, rhwydwaith effeithiol o gynghorwyr gyrfaoedd i helpu myfyrwyr symud ymlaen i addysg uwch, gwaith allgymorth mwy effeithiol gan brifysgolion cenedlaethol a lleol – gallai unrhyw un o’r ffactorau hyn esbonio’r gyfradd llwyddo uwch o ymgeiswyr i Rydychen a Chaergrawnt.

Ni allwn ymchwilio i hyn yn y papur hwn heb wybodaeth ranbarthol bellach.

## Cyrhaeddiad academaidd

Fe wnaethom archwilio cyrhaeddiad yn yr arholiadau TGAU a Safon Uwch yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr, er mwyn gallu cymharu'r data hwn gyda data a gyflwynwyd yn flaenorol yn y Papur Ymchwil Pellach. Fel y nodwyd yn flaenorol, nodwyd 5A* yn yr arholiadau TGAU fel dangosydd da o allu academaidd perthnasol er mwyn gwneud cais cystadleuol i Rydychen neu Gaergrawnt. Rydym wedi dadansoddi'r canlyniadau Safon Uwch AAA-A*A*A*. O'r data hwn, gallwn gyflwyno'r wybodaeth ganlynol:

1. Mae gan Ogledd Ddwyrain Lloegr gyfran is o fyfyrwyr AAA o gymharu â Chymru, a chyfran ychydig yn uwch o fyfyrwyr A*AA a A*A*A, a chyfran ychydig yn is o fyfyrwyr A*A*A *. Heb brofi am arwyddocâd ystadegol, gallwn ddweud bod y gwahaniaethau mewn perfformiad mor fychan, gellir dweud eu bod yn gymharol ddinod.
2. Mae cyfran llawer is o fyfyrwyr AAA-A*A*A* yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr a Chymru o gymharu â Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r DU gyfan. Mae'r bwlch cyfrannol mewn perfformiad rhwng yr holl gohortau yn gostwng wrth i'r trothwy graddau gynyddu.

Pam fod cymaint o geisiadau i Rydychen a Chaergrawnt o'r rhanbarth hwn yn llwyddo, os nad yw'r gronfa o ymgeiswyr yn meddu ar gymwysterau cystal? Mae hyn yn awgrymu nad cyrhaeddiad academaidd yw'r unig ffactor sy'n cyfrannu at y gyfradd llwyddo is ymhlith myfyrwyr o Gymru. Os ydym yn edrych ar y ffigurau cyffredinol, yn hytrach na'r cyfrannau, gwelwn fod 615 o dderbyniadau llwyddiannus i Rydychen a Chaergrawnt yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr, neu 24.2% o fyfyrwyr AAA ac uwch o'r rhanbarth hwn. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer Cymru yw 685 o fyfyrwyr a dderbyniwyd, neu 11.2% o'r cohort AAA.

3. Mae gan Gymru gyrhaeddiad cyfartalog da iawn yn yr arholiadau TGAU. Mae cyfran y myfyrwyr sy'n cyflawni 5 gradd A*-C yn uwch na chyfartaledd y DU, ac mae'n uwch na Lloegr a Gogledd Ddwyrain Lloegr, ac yn ail yn unig i Ogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad ar frig y sbectrwm TGAU yn wannach o gymharu â rhanbarthau eraill. Mae cyfran y myfyrwyr o Gymru sy'n cyflawni 5 gradd A* yn yr arholiadau TGAU yn is na chyfartaledd Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r DU.

Mae'r cyrhaeddiad cyfartalog yn yr arholiadau TGAU yng Nghymru yn newyddion da, ac mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu ymdrechion Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r myfyrwyr hynny sy'n wynebu'r risg o fethiant yn y system addysg. Mae mwy o fyfyrwyr, ar gyfartaledd, yn cyflawni canlyniadau da yn yr arholiadau TGAU, o gymharu â'r rhan fwyaf o ardaloedd eraill yn y DU. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau nad yw'r ffocws hwn ar y canol yn caniatáu i gyflawnwyr uchel golli tir a methu â chyflawni eu potensial. Mae cyfran y myfyrwyr sy'n cyflawni pum canlyniad gwych yn yr arholiadau TGAU yn is na'r disgwyl, o gymharu â gweddill y DU, sy'n awgrymu bod angen mwy o sylw ar y myfyrwyr hyn, sy'n fwy galluog a thalentog yn academaidd, yn y dyfodol.

4. Mae cyfran is o fyfyrwyr yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr yn cyflawni 5 gradd A*-C a 5 gradd A* yn yr arholiadau TGAU, o gymharu â'r rhanbarthau eraill yn y dadansoddiad. Mae'r gwahaniaeth hwn yn fwy na'r cyrhaeddiad yn yr arholiadau Safon Uwch, ac mae'r bwlch mewn perfformiad wedi diflannu fwy neu lai erbyn cam derbyniadau Rhydychen a Chaergrawnt. A yw'r myfyrwyr mwyaf galluog yn academaidd yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr yn cael eu nodi a'u cefnogi trwy gydol eu haddysg, er gwaethaf y ffaith bod ganddynt lefelau cyrhaeddiad cyfartalog llawer is? Neu a oes ymyrraeth arall yn ychwanegu gwerth addysgol i gohort y myfyrwyr Safon Uwch yn y rhanbarth hwn?

Mae'n anodd gwybod pa gasgliadau y gellir eu llunio o'r gymhariaeth hon oherwydd, o fewn yr amser a oedd ar gael, ni fu'n bosibl i ni ddadansoddi'r data cyrhaeddiad ar gyfer ymgeiswyr o Ogledd Ddwyrain Lloegr i Rydychen a Chaergrawnt. Mae'r diffyg data hwn yn hollbwysig oherwydd, fel y dangoswyd yn ein papur ategol, "Cyrhaeddiad myfyrwyr Cymru a'r ymgeiswyr sy'n cael eu derbyn yn Rhydychen a Chaergrawnt: y dystiolaeth", efallai nad yw'r hyn y gellir ei ddweud am gohort cyffredinol rhanbarth yn cyd-fynd â'r hyn y gellir ei ddweud am ymgeiswyr y rhanbarth hwnnw i Rydychen a Chaergrawnt. Yma, mae'n ymddangos bod ymgeiswyr o Ogledd Ddwyrain Lloegr yn perfformio'n well ar ôl eu harholiadau TGAU, o gymharu ag ymgeiswyr o Gymru, er gwaethaf y cyrhaeddiad cymharol isel ar ben uchaf y sbectrwm cyrhaeddiad yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr o gymharu â Chymru. Byddai'n ddefnyddiol cynnal astudiaeth bellach i esbonio'r gymhariaeth hon. Fodd bynnag, beth bynnag fyddai canlyniadau astudiaeth bellach o'r fath, nid wyf yn credu y byddai'n tynnu oddi ar y patrymau hollbwysig yr ydym wedi'u nodi yng Nghymru.

## Atodiad A: Data derbyniadau blynyddol ar gyfer Rhydychen a Chaergrawnt yn ôl rhanbarth 2008–12

### Tabl 2.1: ystadegau derbyniadau 2008-12 ar gyfer ymgeiswyr Caergrawnt sy'n byw yng Nghymru

| UCAS | # Ceis | # Cyn | % Cyfradd Cyn | # Derb | % Cyfradd Derb |
|---|---|---|---|---|---|
| 2008 | 241 | 65 | 27.00% | 60 | 24.90% |
| 2009 | 287 | 68 | 23.70% | 59 | 20.60% |
| 2010 | 290 | 72 | 24.80% | 65 | 22.40% |
| 2011 | 247 | 69 | 27.90% | 57 | 23.10% |
| 2012 | 269 | 66 | 24.50% | 60 | 22.30% |
| Cyfartaledd | 267 | 68 | 25.50% | 60 | 22.60% |

### Tabl 2.2: ystadegau derbyniadau 2008-12 ar gyfer ymgeiswyr Caergrawnt sy'n byw yn y DU

| UCAS | # Ceis | # Cyn | % Cyfradd Cyn | # Derb | % Cyfradd Derb |
|---|---|---|---|---|---|
| 2008 | 10179 | 3281 | 32.20% | 2907 | 28.60% |
| 2009 | 10867 | 3221 | 29.60% | 2842 | 26.20% |
| 2010 | 10312 | 3180 | 30.80% | 2745 | 26.60% |
| 2011 | 9798 | 2994 | 30.60% | 2590 | 26.40% |
| 2012 | 9832 | 3173 | 32.30% | 2691 | 27.40% |
| Cyfartaledd | 10198 | 3170 | 31.10% | 2755 | 27.00% |

### Tabl 2.3: ystadegau derbyniadau 2008-2012 ar gyfer ymgeiswyr Caergrawnt sy'n byw yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr

| UCAS | # Ceis | # Cyn | % Cyfradd Cyn | # Derb | % Cyfradd Derb |
|---|---|---|---|---|---|
| 2008 | 243 | | | 69 | 28.40% |
| 2009 | 301 | | | 76 | 25.25% |
| 2010 | 270 | | | 67 | 24.81% |
| 2011 | 261 | | | 65 | 24.90% |
| 2012 | 235 | | | 64 | 27.23% |
| Cyfartaledd | 262 | | | 68.2 | 26.03% |

**Tabl 2.4: ffigurau derbyniadau 2008-2012 ar gyfer Rhydychen i ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru**

| UCAS | # Ceis | # RhF | % Cyfradd RhF | # Cyn | % Cyfradd Cyn | # Derb | % Cyfradd Derb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2008 | 401 | 298 | 74.30% | 92 | 22.90% | 84 | 20.90% |
| 2009 | 486 | 329 | 67.70% | 85 | 17.50% | 78 | 16.00% |
| 2010 | 436 | 251 | 57.60% | 79 | 18.10% | 74 | 17.00% |
| 2011 | 476 | 281 | 59.00% | 83 | 17.40% | 74 | 15.50% |
| 2012 | 424 | 236 | 55.70% | 80 | 18.90% | 75 | 17.70% |
| Cyfartaledd | 445 | 279 | 62.80% | 84 | 18.80% | 77 | 17.30% |

**Tabl 2.5: ffigurau derbyniadau 2008-2012 ar gyfer Rhydychen i ymgeiswyr sy'n byw yn y DU**

| UCAS | # Ceis | # RhF | % Cyfradd RhF | # Cyn | % Cyfradd Cyn | # Derb | % Cyfradd Derb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2008 | 10094 | 7904 | 78.30% | 2988 | 29.60% | 2755 | 27.30% |
| 2009 | 10894 | 7779 | 71.40% | 2920 | 26.80% | 2727 | 25.00% |
| 2010 | 12333 | 8102 | 65.70% | 2853 | 23.10% | 2670 | 21.60% |
| 2011 | 12107 | 7810 | 64.50% | 2863 | 23.60% | 2665 | 22.00% |
| 2012 | 11832 | 7618 | 64.40% | 2904 | 24.50% | 2695 | 22.80% |
| Cyfartaledd | 11452 | 7843 | 68.50% | 2906 | 25.40% | 2702 | 23.60% |

**Tabl 2.6: ffigurau derbyniadau 2008-2012 ar gyfer Rhydychen i ymgeiswyr sy'n byw yng Ngogledd-orllewin Lloegr**

| UCAS | # Ceis | # RhF | % Cyfradd RhF | # Cyn | % Cyfradd Cyn | # Derb | % Cyfradd Derb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2008 | 217 | 167 | 76.96% | 70 | 32.26% | 62 | 28.57% |
| 2009 | 202 | 150 | 74.26% | 46 | 22.77% | 40 | 19.80% |
| 2010 | 265 | 179 | 67.55% | 66 | 24.91% | 60 | 22.64% |
| 2011 | 278 | 170 | 61.15% | 62 | 22.30% | 53 | 19.06% |
| 2012 | 259 | 163 | 62.93% | 64 | 24.71% | 59 | 22.78% |
| Cyfartaledd | 244.2 | 165.8 | 67.90% | 61.6 | 25.23% | 54.8 | 22.44% |

## Atodiad B: Derbyniadau i Rydychen yn ôl math o ysgol 2008–12

### Tabl 3.1: ffigurau derbyniadau 2008-12 ar gyfer Rhydychen i ymgeiswyr o Ogledd Ddwyrain Lloegr yn ôl math o ysgol

| Math o ysgol | # Ceis | # RhF | % RhF | # Cyn | % Cyn/RhF | # Cyn/Derb | % Derb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfun | 613 | 412 | 67.2% | 171 | 41.5% | 27.9% | 152 |
| Sefydliadau AB | 52 | 23 | 44.2% | 7 | 30.4% | 13.5% | 5 |
| Gramadeg | 1 | | 0.0% | | | 0.0% | |
| Annibynnol | 371 | 278 | 74.9% | 100 | 36.0% | 27.0% | 90 |
| Unigol/anhysbys | 32 | 17 | 53.1% | 6 | 35.3% | 18.8% | 5 |
| Ysgolion tramor | 3 | 1 | 33.3% | | 0.0% | 0.0% | |
| Coleg Chweched Dosbarth | 149 | 98 | 65.8% | 24 | 24.5% | 16.1% | 22 |
| Cyfanswm | 1221 | 829 | 67.9% | 308 | 37.2% | 25.2% | 274 |

### Tabl 3.2: ffigurau derbyniadau 2008-12 ar gyfer Rhydychen i ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru yn ôl math o ysgol

| Math o ysgol | # Ceis | # RhF | % RhF | # Cyn | % Cyn/RhF | # Cyn/Derb | % Derb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfun | 1388 | 848 | 61.1% | 251 | 29.6% | 18.1% | 232 |
| Sefydliadau AB | 236 | 150 | 63.6% | 35 | 23.3% | 14.8% | 30 |
| Gramadeg | 3 | 2 | 66.7% | | 0.0% | 0.0% | |
| Annibynnol | 402 | 281 | 69.9% | 98 | 34.9% | 24.4% | 91 |
| Unigol/Anhysbys | 37 | 21 | 56.8% | 9 | 42.9% | 24.3% | 8 |
| Arall a Gynhelir | 14 | 7 | 50.0% | 3 | 42.9% | 21.4% | 3 |
| Sefydliadau eraill yn y DU | 3 | 1 | 33.3% | | 0.0% | 0.0% | |
| Ysgolion tramor | 8 | 7 | 87.5% | 1 | 14.3% | 12.5% | 1 |
| Coleg Chweched Dosbarth | 132 | 78 | 59.1% | 22 | 28.2% | 16.7% | 20 |
| Cyfanswm | 2223 | 1395 | 62.8% | 419 | 30.0% | 18.8% | 385 |

# Atodiad C: Cyrhaeddiad yn yr arholiadau Safon Uwch a TGAU 2008–12

## Tabl 4.1: Cyrhaeddiad Safon Uwch o 2007-08 i 2011-12

| Rhanbarth | Blwyddyn | # Disgyblion Safon Uwch | # AAA + | % AAA + | # A*AA + | % A*AA + | # A*A*A + | % A*A*A + | # A*A*A* + | % A*A*A* + |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru (ysgolion) | 2007-08 | 10629 | 1049 | 9.90% | | | | | | |
| | 2008-09 | 10920 | 1096 | 10.00% | | | | | | |
| | 2009-10 | 10980 | 1088 | 9.90% | 702 | 6.40% | 355 | 3.20% | 132 | 1.20% |
| | 2010-11 | 10707 | 1046 | 9.80% | 681 | 6.40% | 322 | 3.00% | 136 | 1.30% |
| | 2011-12 | 10507 | 943 | 9.00% | 608 | 5.80% | 295 | 2.80% | 123 | 1.20% |
| | Cyfartaledd | 10749 | 1044 | 9.70% | 664 | 6.20% | 324 | 3.00% | 130 | 1.20% |
| Cymru (AB) | 2007-08 | 2347 | 170 | 7.20% | | | | | | |
| | 2008-09 | 2613 | 207 | 7.90% | | | | | | |
| | 2009-10 | 2480 | 191 | 7.70% | 124 | 5.00% | 70 | 2.80% | 31 | 1.30% |
| | 2010-11 | 2468 | 157 | 6.40% | 108 | 4.40% | 61 | 2.50% | 30 | 1.20% |
| | 2011-12 | 2379 | 159 | 6.70% | 95 | 4.00% | 48 | 2.00% | 20 | 0.80% |
| | Cyfartaledd | 2457 | 177 | 7.20% | 109 | 4.50% | 60 | 2.40% | 27 | 1.10% |
| Cymru (gyfan) | 2007-08 | 12976 | 1219 | 9.40% | | | | | | |
| | 2008-09 | 13533 | 1303 | 9.60% | | | | | | |
| | 2009-10 | 13460 | 1279 | 9.50% | 826 | 6.10% | 425 | 3.20% | 163 | 1.20% |
| | 2010-11 | 13175 | 1203 | 9.10% | 789 | 6.00% | 383 | 2.90% | 166 | 1.30% |
| | 2011-12 | 12886 | 1102 | 8.60% | 703 | 5.50% | 343 | 2.70% | 143 | 1.10% |
| | Cyfartaledd | 13206 | 1221 | 9.20% | 773 | 5.90% | 384 | 2.90% | 157 | 1.20% |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Ddwyrain Lloegr (gyfan) | 2007-08 | 5,776 | 422 | 7.30% | | | | | | | |
| | 2008-09 | 6,058 | 473 | 7.80% | | | | | | | |
| | 2009-10 | 6,132 | 546 | 8.90% | 374 | 6.10% | 172 | 2.80% | 67 | 1.10% |
| | 2010-11 | 6,116 | 557 | 9.10% | 391 | 6.40% | 202 | 3.30% | 80 | 1.30% |
| | 2011-12 | 6,003 | 546 | 9.10% | 384 | 6.40% | 186 | 3.10% | 66 | 1.10% |
| | Cyfartaledd | 6,017 | 508 | 8.44% | 379 | 6.30% | 185 | 3.07% | 70 | 1.17% |
| Lloegr (gyfan) | 2007-08 | 248589 | 30169 | 12.10% | | | | | | | |
| | 2008-09 | 254138 | 32039 | 12.60% | | | | | | | |
| | 2009-10 | 263620 | 33830 | 12.80% | 23839 | 9.00% | 12803 | 4.90% | 5448 | 2.10% |
| | 2010-11 | 253312 | 33537 | 13.20% | 24397 | 9.60% | 13220 | 5.20% | 5806 | 2.30% |
| | 2011-12 | 257166 | 33311 | 13.00% | 23859 | 9.30% | 12925 | 5.00% | 5637 | 2.20% |
| | Cyfartaledd | 255365 | 32577 | 12.80% | 24032 | 9.30% | 12983 | 5.00% | 5630 | 2.20% |
| Gogledd Iwerddon (ysgolion) | 2007-08 | 10070 | 1727 | 17.10% | | | | | | | |
| | 2008-09 | 10692 | 1681 | 15.70% | | | | | | | |
| | 2009-10 | 11819 | 1851 | 15.70% | 1203 | 10.20% | 591 | 5.00% | 257 | 2.20% |
| | 2010-11 | 11055 | 1800 | 16.30% | 1128 | 10.20% | 568 | 5.10% | 254 | 2.30% |
| | 2011-12 | 11292 | 1645 | 14.60% | 1050 | 9.30% | 519 | 4.60% | 196 | 1.70% |
| | Cyfartaledd | 10986 | 1741 | 15.90% | 1127 | 9.90% | 559 | 4.90% | 236 | 2.10% |
| DU[3] | 2007-08 | 271635 | 33115 | 12.20% | | | | | | | |
| | 2008-09 | 278363 | 35023 | 12.60% | | | | | | | |
| | 2009-10 | 288899 | 36960 | 12.80% | 25868 | 9.00% | 13819 | 4.80% | 5868 | 2.00% |
| | 2010-11 | 277542 | 36540 | 13.20% | 26314 | 9.50% | 14171 | 5.10% | 6226 | 2.20% |
| | 2011-12 | 281344 | 36058 | 12.80% | 25612 | 9.10% | 13787 | 4.90% | 5976 | 2.10% |
| | Cyfartaledd | 279557 | 35539 | 12.70% | 25931 | 9.20% | 13926 | 4.90% | 6023 | 2.10% |

[3] Nid yw’n cynnwys yr Alban na sector annibynnol Gogledd Iwerddon

**Tabl 4.2: Cyrhaeddiad cyfartalog yn yr arholiadau Safon Uwch o 2007-08 i 2011-12**

| Rhanbarth | # Disgyblion Safon Uwch | # AAA + | % AAA + | # A*AA + | % A*AA + | # A*A*A + | % A*A*A + | # A*A*A* + | % A*A*A* + |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 13206 | 1221 | 9.20% | 773 | 5.90% | 384 | 2.90% | 157 | 1.20% |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 6,017 | 508 | 8.44% | 379 | 6.30% | 185 | 3.07% | 70 | 1.17% |
| Lloegr | 255365 | 32577 | 12.80% | 24032 | 9.30% | 12983 | 5.00% | 5630 | 2.20% |
| Gogledd Iwerddon | 10986 | 1741 | 15.90% | 1127 | 9.90% | 559 | 4.90% | 236 | 2.10% |
| DU | 279557 | 35539 | 12.70% | 25931 | 9.20% | 13926 | 4.90% | 6023 | 2.10% |

**Tabl 4.3: Cyrhaeddiad yn yr arholiadau TGAU o 2007-08 i 2011-12**

| Rhanbarth | Blwyddyn | # Disgyblion TGAU | # 5A*-C + | % 5A*-C + | # 5A* + | % 5A* + |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 2007-08 | 37045 | 21518 | 58.10% | 1308 | 3.50% |
| | 2008-09 | 35942 | 21138 | 58.80% | 1351 | 3.80% |
| | 2009-10 | 35548 | 21207 | 59.70% | 1323 | 3.70% |
| | 2010-11 | 34561 | 20316 | 58.80% | 1376 | 4.00% |
| | 2011-12 | 34201 | 19686 | 57.60% | 1396 | 4.10% |
| | Cyfartaledd | 35459 | 20773 | 58.60% | 1351 | 3.80% |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 2007-08 | 32,112 | 15478 | 48.20% | 642 | 2.00% |
| | 2008-09 | 30,670 | 15120 | 49.30% | 644 | 2.10% |
| | 2009-10 | 29,528 | 14616 | 49.50% | 709 | 2.40% |
| | 2010-11 | 29,305 | 14535 | 49.60% | 791 | 2.70% |
| | 2011-12 | 28,554 | 14277 | 50.00% | 771 | 2.70% |
| | Cyfartaledd | 30,034 | 14813 | 49.32% | 715 | 2.38% |
| Lloegr[4] | 2007-08 | 653083 | 356783 | 54.60% | 25911 | 4.00% |
| | 2008-09 | 634496 | 351728 | 55.40% | 26586 | 4.20% |
| | 2009-10 | 639263 | 358029 | 56.00% | 28678 | 4.50% |
| | 2010-11 | 627093 | 348783 | 55.60% | 29307 | 4.70% |
| | 2011-12 | 620617 | 342238 | 55.10% | 26888 | 4.30% |
| | Cyfartaledd | 634910 | 351512 | 55.40% | 27474 | 4.30% |
| Gogledd Iwerddon | 2007-08 | 24172 | 15302 | 63.30% | 1237 | 5.10% |
| | 2008-09 | 23164 | 14802 | 63.90% | 1190 | 5.10% |
| | 2009-10 | 22931 | 15013 | 65.50% | 1214 | 5.30% |
| | 2010-11 | 22699 | 14755 | 65.00% | 1169 | 5.20% |
| | 2011-12 | 22157 | 14410 | 65.00% | 1189 | 5.40% |
| | Cyfartaledd | 23025 | 14856 | 64.50% | 1200 | 5.20% |
| DU[5] | 2007-08 | 714300 | 393603 | 55.10% | 28456 | 4.00% |
| | 2008-09 | 693602 | 387668 | 55.90% | 29127 | 4.20% |
| | 2009-10 | 697742 | 394249 | 56.50% | 31215 | 4.50% |
| | 2010-11 | 684353 | 383854 | 56.10% | 31852 | 4.70% |
| | 2011-12 | 676975 | 376334 | 55.60% | 29473 | 4.40% |
| | Cyfartaledd | 693394 | 387142 | 55.80% | 30025 | 4.30% |

[4] Mae anghysondeb arwyddocaol rhwng y ffigurau hyn (a ddarparwyd gan y Tîm Gohebiaeth Cyrhaeddiad) â'r ffigurau yn Nhabl 1a https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/219342/sfr02_202013nt.xls [cyrchwyd 30/08/13], lle mae'n ymddangos bod canran y disgyblion sy'n cyflawni 5 gradd A*-C wedi cynyddu o 65.3% yn 2007-08 i 81.8% yn 2011-12. Yn ôl llefarydd y Tîm Gohebiaeth Cyrhaeddiad, y rheswm dros yr anghysondeb hwn yw bod Tabl 1a yn dangos y ffigurau ar gyfer disgyblion sy'n sefyll arholiadau "TGAU a phob cymhwyster cyfwerth", tra bod y ffigurau a roddir yma yn Nhabl 2.3 ond yn dangos disgyblion sy'n dilyn cyrsiau TGAU llawn (ac rydym yn credu eu bod yn cyfateb â'r ffigurau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac Adran Addysg Gogledd Iwerddon ).

[5] Nid yw'n cynnwys yr Alban na sector annibynnol Gogledd Iwerddon

**Tabl 4.4: Cyrhaeddiad cyfartalog yn yr arholiadau TGAU o 2007-08 i 2011-12**

| Rhanbarth | # Disgyblion TGAU | # 5A*-C + | % 5A*-C + | # 5A* + | % 5A* + |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 35459 | 20773 | 58.60% | 1351 | 3.80% |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 30,034 | 14813 | 49.32% | 715 | 2.38% |
| Lloegr | 634910 | 351512 | 55.40% | 27474 | 4.30% |
| Gogledd Iwerddon | 23025 | 14856 | 64.50% | 1200 | 5.20% |
| DU | 693394 | 387142 | 55.80% | 30025 | 4.30% |